Gwybodaeth o'n Harolygiadau

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Themâu Allweddol mewn Practisau Meddygon Teulu

**Yn 2024-25, gwnaethom arolygu 30 o bractisau meddygon teulu ledled Cymru i asesu diogelwch, ansawdd ac effeithiolrwydd y gofal a roddir i gleifion.**

Mae practisau meddygon teulu ledled Cymru yn parhau i wynebu pwysau sylweddol ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yng nghanfyddiadau ein harolygiadau.

O fwy na 650 o ymatebion i'n harolygon profiad y claf, roedd 62% o gleifion yn gallu cael apwyntiad brys ar yr un diwrnod a gallai 63% o gleifion drefnu apwyntiad cyffredin. Fodd bynnag, dim ond 49% o gleifion a gafodd gynnig y math o apwyntiad neu'r dull apwyntiad roeddent yn ei ffafrio.



Gwelwyd risgiau clir i ddiogelwch cleifion mewn mwy na hanner y practisau a arolygwyd (56%), sy'n golygu y bu'n rhaid i ni ofyn am gynlluniau gwella ar unwaith o fewn pum diwrnod gwaith.

**Roedd materion yr oedd angen sicrwydd ar unwaith yn eu cylch yn cynnwys:**

- Methiant i wirio cyfarpar a chyffuriau brys yn wythnosol
- Diffyg gwiriadau cefndir ar gyfer staff clinigol a gweinyddol
- Methiant i gadw a monitro cofnodion imiwneiddio ar gyfer staff
- Methiant i gwblhau hyfforddiant ar ddiogelu i'r lefel ofynnol
- Materion yn ymwneud ag Atal a Rheoli Heintiau

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru.

**Sganiwch yma i gael rhagor o wybodaeth >**

**www.agic.org.uk**